WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Ymchwiliad i'r cam i 'Gynnal a chadw ein ffocws ar adfywio canol y ddinas fel ei bod yn un o ddinasoedd gorau'r DU' – **Cyngor Dinas Casnewydd**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1138A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o’r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau o'r fath, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan dîm a oedd yn cynnwys Ian Phillips, Jeff Brown a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Wrth iddo fynd ati i adfywio canol y ddinas, mae gan y Cyngor lawer o enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd y mae wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud i sicrhau bod pob un o'r pum ffordd o weithio'n cael eu hymgorffori'n gyson ar draws pob rhan o'i uchelgais i adfywio canol y ddinas.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 7

Rhan Un: Canfyddiadau'r ymchwiliad 7

Mae'r Cyngor wedi amlinellu ei weledigaeth i adfywio canol y ddinas dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r Cyngor yn bwriadu diweddaru ei Strategaeth Twf Economaidd a bydd hyn yn gyfle i estyn y weledigaeth i'r tymor hirach 7

Mae'r Cyngor yn defnyddio data i wella ei ddealltwriaeth o atal, ond mae angen i'r Cyngor nodi'n gliriach sut y gall ei amcanion amgylcheddol ar gyfer canol y ddinas sicrhau buddion hirdymor 8

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu dull integredig i fynd i'r afael â'r cam hwn. Fodd bynnag, byddai modd gwella hyn ymhellach drwy ddatblygu dealltwriaeth gyson o integreiddio ar draws y Cyngor 9

Wrth i fforymau cydweithredol y Cyngor esblygu, bydd yn bwysig bod y Cyngor yn egluro swyddogaethau'r fforymau hyn o ran cefnogi ei uchelgais i adfywio (canol y ddinas) 10

Ceir nifer o enghreifftiau da o gynnwys yn y cam hwn, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo adeiladu ar y dulliau a ddefnyddir ganddo i sicrhau bod modd i'r holl ddinasyddion a rhanddeiliaid ddylanwadu ar broses benderfynu'r Cyngor 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y gwnaethom gynnal yr ymchwiliad

1 Yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'n statudol ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) gynnal ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan fyddant:

a. yn pennu eu hamcanion llesiant;

b. yn mynd ati i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad am ei ymchwiliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid iddo gyhoeddi'r adroddiad cyntaf erbyn 2020 cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymchwiliadau ar draws y 44 corff y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt i osod sylfaen ar gyfer ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad 'Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Daeth i'r casgliad fod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf a'u bod yn mynd ati i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr ymchwiliadau hyn yn ystod 2018-19, buom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys drwy ein gwaith peilot yn 2017-18. Buom hefyd yn cydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan fod y gwaith rhagarweiniol a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ystyried sut yr oedd y cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffordd y mae'r cyrff cyhoeddus yn mynd ati i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2018. Cynhaliwyd gweithdy cwmpasu gwaith maes cychwynnol ym mis Hydref 2018 gyda swyddogion y Cyngor i drin a thrafod sut y cafodd pob un o'r pum ffordd o weithio eu rhoi ar waith.

8 Yna, aethpwyd ati i adolygu dogfennau pwysig ac i gyf-weld swyddogion y Cyngor, swyddogion sefydliadau sy'n bartneriaid ac aelodau etholedig.

9 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau ein hymchwiliad i'r cam i 'Gynnal a chadw ein ffocws ar adfywio canol y ddinas fel ei bod yn un o ddinasoedd gorau'r DU', cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

10 Mae hefyd yn amlinellu ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Beth y buom yn ymchwilio iddo

11 Buom yn ymchwilio i'r graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth iddo fynd ati i 'Gynnal a chadw ein ffocws ar adfywio canol y ddinas fel ei bod yn un o ddinasoedd gorau'r DU'.

12 Rhestrir y cam y bu inni ymchwilio iddo o dan amcan llesiant y Cyngor i 'Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd'.

13 Mae'r Cyngor wedi cyflawni nifer o brosiectau adfywio ers i Gasnewydd ennill statws dinas yn 2002 ac mae gan y Cyngor gynlluniau adfywio sy'n mynd rhagddynt. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn amlinellu'r ymrwymiad i ailddatblygu safleoedd fel ardal Westgate, Tŵr y Siartwyr a'r Farchnad i roi strategaethau ar waith i annog busnesau i ddod i'r ddinas, i agor adeiladau a siopau gwag, ac i hwyluso camau i ddatblygu swyddfeydd gradd uchel.

14 Mae'r cam yn seiliedig ar amryw o strategaethau a chynlluniau pwysig, gan gynnwys Strategaeth Twf Economaidd 2015-25, Uwchgynllun Canol Dinas Casnewydd a'r Cynllun Datblygu Lleol.

15 Mae'r Uwchgynllun yn canolbwyntio ar dair prif ardal: Porth y Gogledd, Canol y Ddinas a Glan-yr-afon. Mae'r Cyngor yn bwriadu llunio is-uwchgynlluniau ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn.

16 I weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' a ganlyn:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion[1].

| Y pum ffordd o weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

| Y pum ffordd o weithio |
| --- |
| **Cynnwys** |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

17 Canfu ein hymchwiliad yr hyn a ganlyn: Wrth iddo fynd ati i adfywio canol y ddinas, mae gan y Cyngor lawer o enghreifftiau cadarnhaol o’r ffordd y mae wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

18 Serch hynny, mae’r Cyngor yn cydnabod bod mwy i’w wneud i sicrhau bod pob un o’r pum ffordd o weithio’n cael eu hymgorffori’n gyson ar draws pob rhan o'i uchelgais i adfywio canol y ddinas.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r ymchwiliad

### Mae'r Cyngor wedi amlinellu ei weledigaeth i adfywio canol y ddinas dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r Cyngor yn bwriadu diweddaru ei Strategaeth Twf Economaidd a bydd hyn yn gyfle i estyn y weledigaeth i'r tymor hirach

#### Beth y buom yn chwilio amdano

19 Buom yn chwilio am dystiolaeth o'r pethau a ganlyn:

- dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros gyfnod priodol;
- dyrannu adnoddau i sicrhau buddion hirdymor;
- monitro ac adolygu priodol.

20 Roedd ein hymchwiliad hefyd yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'hirdymor' a bennwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn.[2]

#### Beth y gwnaethom ei ganfod

21 Pennwyd y cryfderau a ganlyn:

- Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o ddata rhanbarthol hanesyddol a hirdymor i lywio ei broses benderfynu
- Mae gan y Cyngor strategaeth ddeng mlynedd sy'n pennu ei uchelgais i adfywio canol y ddinas. Mae disgwyl i'r strategaeth hon gael ei diweddaru yn 2019 a bydd hyn yn gyfle i fynegi gweledigaeth fwy hirdymor
- Mae'r Cyngor yn ceisio mynd ati i liniaru rhai o'r prif risgiau a allai effeithio ar y gwaith o adfywio canol y ddinas, gan gynnwys Brexit a'r camau i ddiddymu tollau'r M4.

22 Pennwyd y meysydd a ganlyn i'w datblygu:

- Gwneud gwell defnydd o ddata o ffynonellau eraill tu allan i'r rhanbarth fel sail i'w ddull mwy hirdymor o weithredu, fel defnyddio gwybodaeth y Ganolfan Dinasoedd a dadansoddiad Cenhedlaeth 2050 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Wrth i effeithiau'r prif risgiau ar y cam ddod yn fwy eglur, eu rheoli mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r tymor hirach
- Sicrhau ei fod yn bwrw golwg dros gyfnod hirach pan fydd yn diweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd a'r is-uwchgynlluniau/cynlluniau cyflawni ar gyfer canol y ddinas

[2] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor yn defnyddio data i wella ei ddealltwriaeth o atal, ond mae angen i'r Cyngor nodi'n gliriach sut y gall ei amcanion amgylcheddol ar gyfer canol y ddinas sicrhau buddion hirdymor

### Beth y buom yn chwilio amdano

23 Buom yn chwilio am dystiolaeth o'r pethau a ganlyn:

- dealltwriaeth drylwyr o natur y broblem, a'r math o broblem, y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- yr adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y bydd y manteision ataliol yn cael eu gwireddu;
- gwaith i fonitro ac i adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

24 Roedd ein hymchwiliad hefyd yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' a bennwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn.[3]

### Beth y gwnaethom ei ganfod

25 Pennwyd y cryfderau a ganlyn:

- Mae gan y Cyngor nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd y mae wedi defnyddio data'n effeithiol i lywio ei benderfyniadau ar gamau ataliol
- Mae wedi mynd ati i atal adeiladau eiconig pwysig rhag dirywio ac i sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol
- Mae'n defnyddio pecyn cymorth buddion cymunedol i ddiffinio buddion ataliol hirdymor, a helpu i'w gwireddu, a hynny o fewn llawer o'i brosiectau i adfywio canol y ddinas
- Cymerwyd risgiau beiddgar, ond risgiau a reolir, i sicrhau bod adnoddau effeithiol ar gael ar gyfer strategaeth adfywio canol y ddinas

26 Pennwyd y meysydd a ganlyn i'w datblygu:

- Mae'r Strategaeth Twf Economaidd gyfredol ac amcan llesiant y Cyngor yn nodi bod gwella/amddiffyn yr amgylchedd yn nod pwysig, ac mae cyfle i'r is-uwchgynlluniau ddarparu gweledigaeth amgylcheddol hirdymor gliriach, a mynegi'r buddion ataliol a gyflawnir yng nghyd-destun adfywio canol y ddinas
- Mae cyfle i alinio'r ymyriadau ataliol pwysig yng Nghynllun Llesiant cyfredol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran mannau gwyrdd a theithio cynaliadwy o fewn y gwaith arfaethedig i ddiweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd yn 2019.

[3] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu dull integredig i fynd i'r afael â'r cam hwn. Fodd bynnag, byddai modd gwella hyn ymhellach drwy ddatblygu dealltwriaeth gyson o integreiddio ar draws y Cyngor

### Beth y buom yn chwilio amdano

27 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

28 Roedd ein hymchwiliad hefyd yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' a bennwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn.[4]

### Beth y gwnaethom ei ganfod

29 Pennwyd y cryfderau a ganlyn:

- Mae'r dull o adfywio canol y ddinas yn cydnabod na ellir ond cyflawni hyn drwy ymyriadau sy'n ymdrin â'r system gyfan (fel yr amgylchedd, diogelwch cymunedol, iechyd a llesiant) yn hytrach na chanolbwyntio ar ffactorau economaidd yn unig
- Drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Rhwydwaith Economaidd Casnewydd, bu modd i bartneriaid a rhanddeiliaid ystyried sut y bydd y cam, a'r broses o'i gyflawni, yn effeithio ar eu hamcanion nhw
- Wrth gynllunio a chyflawni'r cam hwn, mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau cadarnhaol i ystyried sut y gallai effeithio ar ei amcanion llesiant eraill. Yn sgil hyn, mae gwasanaethau gwahanol a chanddynt fuddiant yng nghanol y ddinas wedi gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

30 Pennwyd y meysydd a ganlyn i'w datblygu:

- Ceir rhywfaint o gamddealltwriaeth o hyd ynghylch ystyr gywir 'integreiddio' fel y'i diffinnir yn y Ddeddf. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mabwysiadu dealltwriaeth gyffredin o'r pum ffordd o weithio
- Er bod y gyfres gyfredol o gynlluniau a strategaethau'n mynegi'r uchelgais ar gyfer canol y ddinas, lluniwyd nifer ohonynt cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Felly, pan fyddant yn cael eu diweddaru, bydd cyfle iddynt fod yn fwy cydnaws â'r Ddeddf a dangos yn glir sut y bydd y gwaith o adfywio canol y ddinas yn cefnogi'r camau i gyflawni amcanion a nodau llesiant y Cyngor.

[4] Gweler Atodiad 1

## Wrth i fforymau cydweithredol y Cyngor esblygu, bydd yn bwysig bod y Cyngor yn egluro swyddogaethau'r fforymau hyn o ran cefnogi ei uchelgais i adfywio (canol y ddinas)

### Beth y buom yn chwilio amdano

31 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai gydweithio ag eraill i gyflawni'r cam (i fodloni ei amcanion llesiant, neu i gynorthwyo corff arall i fodloni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam;
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithio'n helpu'r Cyngor neu ei randdeiliaid i fodloni amcanion llesiant.

32 Roedd ein hymchwiliad hefyd yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' a bennwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn.[5]

### Beth y gwnaethom ei ganfod

33 Pennwyd y cryfderau a ganlyn:

- Mae gan y Cyngor berthynas gydweithredol dda â nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid pwysig sy'n ymwneud â'r gwaith o gyflawni'r cam hwn
- Mae'r Cyngor wedi dechrau cwrdd â Rhwydwaith Economaidd Casnewydd. Er bod y rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar i'r grŵp, mewn egwyddor, mae'n gyfle i hyrwyddo ac i wireddu gweledigaeth gydgysylltiedig a rennir ar gyfer canol y ddinas.

34 Pennwyd y meysydd a ganlyn i'w datblygu:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod bob amser mwy i'w wneud i gael y gorau o holl fuddion cydweithio effeithiol
- Gan adeiladu ar y berthynas gydweithredol dda â phartneriaid a rhanddeiliaid, mae cyfle i ystyried sut y gellir galluogi partneriaid allweddol i ddylanwadu ar y Strategaeth Twf Economaidd a'r is-uwchgynlluniau a gaiff eu diweddaru maes o law i sicrhau aliniad strategol hirdymor o ran y weledigaeth i adfywio canol y ddinas.

[5] Gweler Atodiad 1

## Ceir nifer o enghreifftiau da o gynnwys yn y cam hwn, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo adeiladu ar y dulliau a ddefnyddir ganddo i sicrhau bod modd i'r holl ddinasyddion a rhanddeiliaid ddylanwadu ar broses benderfynu'r Cyngor

### Beth y buom yn chwilio amdano

35 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi pennu pwy y mae angen iddo ei gynnwys yn y broses o gynllunio a chyflawni'r cam;
- wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol yn y broses o gynllunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys rhanddeiliaid yn ei waith i siapio'r broses o ddatblygu a chyflawni'r cam;
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'r modd y mae'n cynnwys rhanddeiliaid yn ei waith.

36 Roedd ein hymchwiliad hefyd yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' a bennwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn.[6]

### Beth y gwnaethom ei ganfod

37 Pennwyd y cryfderau a ganlyn:

- Mae prosiect y Cyngor i ddarparu Wi-Fi am ddim yn ei alluogi i ymgysylltu â grŵp ehangach o ddinasyddion i helpu i siapio penderfyniadau o amgylch canol y ddinas
- Mae'r Cyngor wedi ceisio ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion sy'n anodd eu cyrraedd a'u cynnwys mewn rhai prosiectau penodol yng nghanol y ddinas
- Dylai'r Hybiau Cymdogaeth arfaethedig roi mwy o gyfle i'r Cyngor gynnwys pobl ar lefel y gymuned.

38 Pennwyd y meysydd a ganlyn i'w datblygu:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo fod yn fwy soffistigedig o ran y ffordd y mae'n cofnodi gweithgareddau ymgysylltu ac yn sicrhau bod y dinasyddion sy'n rhan ohonynt yn cynrychioli amrywiaeth Casnewydd. Er enghraifft, mae'r gwaith o ddiweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd a'r is-uwchgynlluniau yn gyfle i hwyluso gallu dinasyddion a rhanddeiliaid i ddylanwadu ar y dogfennau hynny.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

39 Ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben, cyflwynwyd ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ar 20 Chwefror 2019. Roedd y Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai, y Partner Busnes Perfformiad ac Ymchwil, yr Uwch-swyddog Polisi a Pherfformiad a'r Rheolwr Datblygu ac Adfywio yn bresennol. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac, o ganlyniad i'r trafodaethau a gafwyd yn y gweithdy ac ar ôl ystyried ein canfyddiadau ymhellach, mae'r Cyngor wedi llunio'r camau gweithredu a ganlyn.

## Ymateb y Cyngor

| Maes i'w ddatblygu | Ymateb y rheolwyr | Tîm / Swyddog Cyfrifol | Dyddiad cyflawni y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor** – Gwneud gwell defnydd o ddata o ffynonellau eraill tu allan i'r rhanbarth fel sail i'w ddull mwy hirdymor o weithredu, fel defnyddio gwybodaeth y Ganolfan Dinasoedd a dadansoddiad Cenhedlaeth 2050 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). | Datblygu Hwb Gwybodaeth Casnewydd a mynd ati i weithio ar sail tystiolaeth yw un o ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol. | Y Pennaeth Pobl a Newid Busnes | |
| | Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor weithdy Dyfodol Gwent gyda rhanddeiliaid allweddol, gan ganolbwyntio ar y sefyllfaoedd hirdymor (dros 25 mlynedd) ar gyfer Casnewydd. Caiff adroddiad ei gyhoeddi a'i rannu yn 2019-20. | Polisi, Partneriaeth a Chynnwys | 30 Mehefin 2019 |
| | Bydd y Tîm Adfywio, Buddsoddi a Thai hefyd yn adolygu dadansoddiad 2050 CLILC ac yn ystyried ei ganfyddiadau pan fydd yn drafftio fersiwn derfynol y Strategeth Twf Economaidd nesaf. | Adfywio, Buddsoddi a Thai | |

| Maes i'w ddatblygu | Ymateb y rheolwyr | Tîm / Swyddog Cyfrifol | Dyddiad cyflawni y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor** – Wrth i effeithiau'r prif risgiau ar y cam ddod yn fwy eglur, eu rheoli mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r tymor hirach. | Bydd Adroddiad Dyfodol Gwent yn amlinellu sefyllfaoedd a risgiau ar gyfer Casnewydd, a'r effeithiau arni, dros y 25 mlynedd nesaf, a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi a'u rhannu ar draws y sefydliad.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad risg corfforaethol, a bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnal gweithdy risg i adolygu ac i bennu prif risgiau corfforaethol yr Awdurdod. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y pum ffordd o weithio ac effeithiau'r risgiau yn y tymor byr a'r tymor hir. | Polisi, Partneriaeth a Chynnwys<br><br>Polisi, Partneriaeth a Chynnwys | 30 Mehefin 2019<br><br>31 Rhagfyr 2019 |
| **Hirdymor** – Sicrhau ei fod yn bwrw golwg dros gyfnod hirach pan fydd yn diweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd a'r is-uwchgynlluniau/cynlluniau cyflawni ar gyfer canol y ddinas. | Wrth fynd ati i ddiweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd, byddwn yn pwyso a mesur yr effeithiau dros y tymor hirach (20-25 mlynedd), a byddwn yn ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o'r cynlluniau a'r dogfennau strategol. | Adfywio, Buddsoddi a Thai | Parhaus |
| **Integreiddio** – Ceir rhywfaint o gamddealltwriaeth o hyd ynghylch ystyr gywir 'integreiddio' fel y'i diffinnir yn y Ddeddf. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mabwysiadu | Ar ôl cwblhau Pecyn Cymorth Cenedlaethau'r Dyfodol, mae angen mynd ati'n barhaus i ymgorffori'r egwyddorion (gan gynnwys integreiddio). | Polisi, Partneriaeth a Chynnwys | Parhaus |

| Maes i'w ddatblygu | Ymateb y rheolwyr | Tîm / Swyddog Cyfrifol | Dyddiad cyflawni y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|
| dealltwriaeth gyffredin o’r pum ffordd o weithio. | Ar hyd a lled y Cyngor, defnyddir dulliau gwahanol i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhannu. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r prosesau democrataidd a'r prosesau penderfynu, a'r dulliau cynllunio, monitro ac adrodd a ddefnyddir gan y gwasanaethau ac yn gorfforaethol. | | |
| **Integreiddio** – Er bod y gyfres gyfredol o gynlluniau a strategaethau’n mynegi’r uchelgais ar gyfer canol y ddinas, lluniwyd nifer ohonynt cyn i’r Ddeddf ddod i rym. Felly, pan fyddant yn cael eu diweddaru, bydd cyfle iddynt fod yn fwy cydnaws â’r Ddeddf a dangos yn glir sut y bydd y gwaith o adfywio canol y ddinas yn cefnogi’r camau i gyflawni amcanion a nodau llesiant y Cyngor. | Wrth fynd ati i ddiweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd, byddwn yn sicrhau bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, y Cynllun Llesiant a'r Cynllun Corfforaethol yn cael eu hymgorffori a'u halinio. | Adfywio, Buddsoddi a Thai | Cychwyn yn 2019-20 |
| **Cynnwys –** Mae’r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo fod yn fwy soffistigedig o ran y ffordd y mae’n cofnodi gweithgareddau ymgysylltu ac yn sicrhau bod y dinasyddion sy’n rhan ohonynt yn cynrychioli amrywiaeth Casnewydd. Er enghraifft, mae’r gwaith o ddiweddaru’r Strategaeth Twf Economaidd a’r is-uwchgynlluniau yn gyfle i hwyluso gallu | Fel y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod, mae'r Cyngor yn barod i ystyried gwahanol ddulliau o ymgysylltu â'i randdeiliaid. Drwy ddatblygu'r Hybiau Cymdogaeth, Wi-Fi ar fysiau a chyfryngau eraill ee Panel Dinasyddion, Facebook, Twitter, byddwn yn ceisio eu defnyddio i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid | Adfywio, Buddsoddi a Thai | 30 Mehefin 2019 |

| Maes i'w ddatblygu | Ymateb y rheolwyr | Tîm / Swyddog Cyfrifol | Dyddiad cyflawni y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|
| dinasyddion a rhanddeiliaid i ddylanwadu ar y dogfennau hynny. | ynghylch diweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd a'r Uwchgynllun.<br><br>Mae'r Cyngor yn mynd ati'n barhaus i adolygu'r ffordd y gallwn gynnwys rhanddeiliaid mor gynnar â phosibl mewn prosesau penderfynu. | Polisi, Partneriaeth a Chynnwys | Parhaus |
| **Cydweithio** – Mae’r Cyngor wedi cydnabod bod bob amser mwy i’w wneud i gael y gorau o holl fuddion cydweithio effeithiol. | Mae'r Cyngor bob amser yn ceisio datblygu a chryfhau ei rwydwaith cydweithredol ar draws Gwent, Cymru a thu hwnt. Drwy ein hymwneud â sefydliadau drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, G10, Rhwydwaith Economaidd Chasnewydd a grwpiau eraill, rydym bob amser yn adolygu sut y gallwn ddarparu gwasanaethau i'n defnyddwyr yn effeithlon ac yn effeithiol. | Y Tîm Rheoli Corfforaethol | Parhaus |

| Maes i'w ddatblygu | Ymateb y rheolwyr | Tîm / Swyddog Cyfrifol | Dyddiad cyflawni y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|
| **Cydweithio** – Gan adeiladu ar y berthynas gydweithredol dda â phartneriaid a rhanddeiliaid, mae cyfle i ystyried sut y gellir galluogi partneriaid allweddol i ddylanwadu ar y Strategaeth Twf Economaidd a'r is-uwchgynlluniau a gaiff eu diweddaru maes o law i sicrhau aliniad strategol hirdymor o ran y weledigaeth i adfywio canol y ddinas. | Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Twf Economaidd ddrafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac i Rwydwaith Economaidd Casnewydd. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei chymeradwyo, a byddwn yn rhannu adroddiadau monitro rheolaidd â'r grwpiau hyn. | Adfywio, Buddsoddi a Thai | 31 Rhagfyr 2019 |
| **Atal –** Mae'r Strategaeth Twf Economaidd gyfredol ac amcan llesiant y Cyngor yn nodi bod gwella/amddiffyn yr amgylchedd yn nod pwysig, ac mae cyfle i'r is-uwchgynlluniau ddarparu gweledigaeth amgylcheddol hirdymor gliriach, a mynegi'r buddion ataliol a gyflawnir yng nghyd-destun adfywio canol y ddinas. | Byddwn yn ymgorffori'r nod o wella ac amddiffyn yr amgylchedd yn y Strategaeth Twf Economaidd ac mewn cynlluniau ategol eraill. | Adfywio, Buddsoddi a Thai | 31 Rhagfyr 2019 |
| **Atal –** Mae cyfle i alinio'r ymyriadau ataliol pwysig yng Nghynllun Llesiant cyfredol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran mannau gwyrdd a theithio cynaliadwy o fewn y gwaith arfaethedig i ddiweddaru'r Strategaeth Twf Economaidd yn 2019. | Cydnabyddir bod cyfle i gynnwys y Strategaeth Twf Economaidd ym Myrddau Ymyrryd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflawni gwaith mwy integredig i sicrhau bod yr effeithiau a'r weledigaeth amgylcheddol yn cael eu hystyried. | Polisi, Partneriaeth a Chynnwys<br><br>Adfywio, Buddsoddi a Thai | 31 Rhagfyr 2019 |

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r 'dangosyddion cadarnhaol' a bennwyd gennym ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio. Fe'u defnyddir i helpu i osod sail ar gyfer ein hasesiadau o'r graddau y mae'r cyrff yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried fel 'dangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o'r graddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth iddo fynd ati i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fydd yn dangos bod corff yn rhoi'r ffordd hirdymor o weithio ar waith yn llwyr? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant ac i gyfrannu at ei weledigaeth hirdymor.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni buddion tymor byr neu ganolig sy'n gytbwys â'r effaith dros y tymor hir (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi cynllunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o'r tueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad i hyn, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae wedi dyrannu adnoddau i sicrhau bod buddion hirdymor yn ogystal â buddion byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Mae'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, gan bennu cerrig milltir/camau cynnydd, a bydd yn cyflawni canlyniadau dros y tymor hir.<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddion dros y tymor hirach.<br>• Mae'n rhoi gwerth ar wybodaeth ac yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fydd yn dangos bod corff yn rhoi'r ffordd ataliol o weithio ar waith yn llwyr?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau er mwyn mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod y buddion hirdymor y gall eu cyflawni ar gyfer pobl a lleoedd, a rhoi gwerth ar y buddion hynny.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer camau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell ac at ddefnyddio adnoddau'n well dros y tymor hirach, hyd yn oed os gall hyn gyfyngu ar ei allu i ddiwallu rhai anghenion yn y tymor byr.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau o ran perfformiad ac adnoddau yn y tymor byr er mwyn cyflawni gwelliannau disgwyliedig o ran canlyniadau a defnyddio adnoddau. |

| Beth fydd yn dangos bod corff yn defnyddio dull ‘integredig’? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni’r weledigaeth a’r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o’r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Maent hefyd yn gwneud hyn pan fyddant yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad o ran cyflawni’r uchelgais a’r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o’r ffordd y mae’r amcanion llesiant, a’r camau i’w cyflawni, yn effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio’n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyfrannu cymaint â phosibl ar draws y nodau llesiant ac i leihau’r effeithiau negyddol.<br>• Mae strwythurau, prosesau a threfniadau llywodraethu, yn ogystal ag ymddygiadau, yn ategu hyn. |
| **Beth fydd yn dangos bod corff yn cydweithio’n effeithiol?** |
| • Mae’r corff yn canolbwyntio ar leoedd, cymunedau a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a’u cyfrifoldebau, ac mae hyn yn helpu i hybu gweithgarwch cydweithredol.<br>• Ceir cysylltiadau cadarnhaol ac aeddfed rhwng y corff a rhanddeiliaid, ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae’r corff yn cydnabod y cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud, ac yn rhoi gwerth arnynt.<br>• Mae’r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo’n briodol. |
| **Beth fydd yn dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Mae’n deall pwy y mae angen iddo eu cynnwys, a pham.<br>• Mae’n adfyfyrio ar y graddau y deellir anghenion y bobl hynny a’r heriau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd.<br>• Mae’n gweithio mewn ffordd gydgynhyrchiol, gan gydweithio â rhanddeiliaid i gynllunio ac i gyflawni.<br>• Mae’n tybio bod barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell.<br>• Mae’n sicrhau bod yr holl randdeiliaid amrywiol yn cael eu cynrychioli a bod modd iddynt gymryd rhan.<br>• Ceir cysylltiadau aeddfed sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng y corff a rhanddeiliaid, gyda deialog barhaus a gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae’n sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Mae’n gofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol, ac fe'i defnyddir i’w helpu i ddysgu ac i wella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru